Health and Social Care **Regional Integration Fund:**
Creating seamless care and support for the people of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cylchlythyr Cymunedau Ymarfer

Awst 2022

Cyflwyniad

Mae'r cylchlythyr hwn yn crynhoi cynnydd a chynlluniau ar gyfer Cymunedau Ymarfer yn y dyfodol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o drefniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2022-27.

Yng nghynllun ar y cyd cyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd *'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'* weledigaeth ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a chyfres o gamau gweithredu i'w cyflawni drwy Raglen Trawsnewid genedlaethol a'i weithredu drwy'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r rhaglen hon bellach wedi'i chynnwys yn rhan o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Fel rhan o'r Gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cymunedau Ymarfer mewn rhai meysydd trawsnewid allweddol. Mae'r Cymunedau Ymarfer hyn yn dod â grwpiau o ymarferwyr ynghyd, yn hyrwyddo trafodaeth gynhyrchiol ac yn annog atebion cydweithredol i oresgyn heriau cyffredin yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu a gweithredu chwe model cenedlaethol o ofal integredig. Mae canllawiau'r Gronfa yn nodi:

"Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd, fel y bydd modd i ddinasyddion Cymru ... fod yn dawel eu meddwl y cânt wasanaeth effeithiol a di-dor... bydd Cymunedau Ymarfer yn cael eu sefydlu i rannu dysgu a chynorthwyo i ddatblygu ac ymgorffori'r modelau gofal integredig hyn."

Dechreuodd rhaglen y Cymunedau Ymarfer ym mis Mawrth 2022.

Y Cymunedau Ymarfer

Y bwriad yw sefydlu chwe Chymuned Ymarfer, pob un yn canolbwyntio ar un maes trawsnewid allweddol a nodwyd yng nghanllawiau gweithredu cenedlaethol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol:

- **Gofal cymunedol**
- **Gofal a alluogir gan dechnoleg**
- **Iechyd Emosiynol a Meddyliol**
- **Gartref o'r Ysbyty**
- **Gofal a Chefnogaeth seiliedig ar lety**
- **Cefnogi Teuluoedd a Phlant sydd wedi cael profiad o ofal**

Mae gan bob Cymuned Ymarfer 2 gyfrifoldeb allweddol:

- Darparu fforwm lle gall cydweithwyr sydd â phrofiad a chyfrifoldeb yn y maes pwnc o bob rhan o Gymru gyfarfod gyda'i gilydd, cymharu dysgu, a rhannu arferion da.
- Cyfrannu at ddatblygu adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni a gweithredu modelau gofal cenedlaethol ac i rannu'r dysgu'n ehangach gyda chydweithwyr ledled Cymru.

Mae'r Cymunedau Ymarfer yn seiliedig ar weithdai ar-lein 6 wythnos o hyd, gyda diweddariadau yn gyson dros e-bost a chyfleoedd i rannu gwybodaeth. Ni chyfyngir ar aelodaeth, maent i gyd yn agored i ymarferwyr, arweinwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, a dinasyddion yn ehangach. Yn syml, gofynnwn i chi ddod â rhywfaint o wybodaeth, profiad neu gyfrifoldeb gyda chi yn y maes sy'n cael sylw'r Gymuned Ymarfer. Os hoffech chi gael eich cynnwys ar y rhestr gwahoddiad a dosbarthu, cysylltwch â ni ar y cyfeiriadau ar ddiwedd y papur.

Mae pedwar o'r Cymunedau Ymarfer bellach wedi'u sefydlu gyda bwriad i ddechrau dau arall yn yr Hydref. Mae rhwng 70 a 90 o bobl wedi tanysgrifio ar gyfer y Cymunedau Ymarfer sefydledig, gweithwyr proffesiynol yn bennaf sydd â chyfrifoldeb gweithredol neu strategol mewn Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Lleol, gwasanaeth preifat neu drydydd sector.

Y Gymuned Ymarfer Gofal yn y Gymuned

Mae'r Gymuned Ymarfer hon yn ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau iechyd, gofal a lles cymunedol 'seiliedig ar le' a rhoi egwyddorion 'Cymru Iachach' ar waith i sicrhau gofal mwy effeithiol a di-dor mewn cymunedau lleol mewn meysydd fel:

- Cydlynu gofal ar draws gofal sylfaenol, cymunedol a gofal cymdeithasol.
- Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n byw gartref. Meithrin arferion gorau aml-asiantaeth ac aml-ddisgyblaeth. Gwella gwybodaeth, cyngor, a chymorth cydgysylltiedig.

Mae'r Gymuned Ymarfer hon wedi cael 4 cyfarfod ers Mawrth 2022:

- Mae cydweithwyr wedi rhannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o heriau lleol mewn fformat dysgu gweithredol i ddatrys problemau - ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer mwy o astudiaethau achos drwy'r Hydref.
- Mae wedi cysylltu â'r Rhaglen Strategol genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Rhaglen Seilwaith Cymunedol ac wedi cytuno ar rôl mewn profi a chyfrannu at ddeunyddiau ac adnoddau i'w cynhyrchu gan y Rhaglen.
- Mae wedi archwilio'r heriau sydd ynghlwm â gweithredu canolfannau cymunedol integredig ac wedi cytuno bod hwn yn faes a fyddai'n elwa o 'arwain agweddau' yn fanylach. Mae'n bwriadu llunio papur trafod sy'n edrych ar yr heriau hyn a sut i fynd i'r afael â nhw yn yr Hydref, a gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i ddefnyddio egwyddorion arfer gorau mewn rhaglenni yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae'r Gymuned Ymarfer gofal yn y gymuned bellach wedi hen ennill ei blwyf ac mae cyfarfodydd rheolaidd bob chwe wythnos wedi'u cynllunio o gyfnod yr Hydref ymlaen. Rydym yn awyddus i groesawu mwy o gydweithwyr ag arbenigedd a chyfrifoldeb yn y maes hwn o bob rhan o Gymru.

Y Gymuned Ymarfer Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg

Mae'r Gymuned Ymarfer hon yn rhoi'r cyfle i'r rhai sydd ar flaen y gad o ran datblygu a darparu iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg i rannu dysgu ac arfer da, ac i gynhyrchu adnoddau a fydd yn helpu eraill i wireddu potensial y maes hwn yn y dyfodol. Mae'r Gymuned Ymarfer wedi cyfarfod 3 gwaith ers mis Mawrth 2022.

Fel yn achos gofal yn y gymuned, mae cydweithwyr y Gymuned Ymarfer wedi rhannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o heriau lleol mewn fformat dysgu gweithredol i ddatrys problemau, ac yn bwriadu parhau i gynnig y cyfle hwn drwy gydol yr Hydref.

Mae'r Gymuned Ymarfer wedi edrych ar rai o'r heriau allweddol sy'n wynebu gofal sy'n cael ei alluogi gan dechnoleg sy'n gysylltiedig â rhaglen y Gronfa Integredig Rhanbarthol gan nodi nifer o feysydd lle gallai arweinyddiaeth ac adnoddau sy'n ystyried y dyfodol fod yn werthfawr gan gynnwys:

- Cofnodi profiad byw pobl o weithio gyda thechnoleg
- Cofnodi data a rhannu gwybodaeth
- Ymatebolrwydd cwmnïau technoleg i anghenion a dewisiadau defnyddwyr
- Safoni dulliau o ymchwilio a gwerthuso technoleg
- Rôl y gofrestr prosiect technoleg cenedlaethol

Mae cydweithwyr bellach yn edrych ar sut allai gwaith y Gymuned Ymarfer ategu orau raglen TEC Cymru yn y maes hwn, gyda chynllun i'w gytuno ar gyfer yr Hydref. Rydym yn awyddus i groesawu mwy o gydweithwyr ag arbenigedd a chyfrifoldeb yn y maes hwn o bob rhan o Gymru.

Y Gymuned Ymarfer Iechyd Emosiynol a Meddyliol

Mae'r Gymuned Ymarfer hon yn pwyso a mesur y ffordd orau o ddylunio a darparu cymorth iechyd emosiynol a meddyliol i bobl o bob oedran ar draws Cymru. Mae cydweithwyr y Gymuned Ymarfer yn rhannu dulliau a heriau mewn meysydd fel:

- Gwasanaethau cymorth a chyngor cynnar a'r ffordd orau o'u darparu
- Newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiadau proffesiynol, a rôl lleisiau cleifion o ran datblygu a chefnogi gwasanaethau
- Cymorth triniaeth yn y gymuned
- Cymorth iechyd a gofal integredig i bobl yn y gymuned a rôl cymorth gwirfoddol a chymunedol
- Perthynas newydd rhwng ysgolion, gwasanaethau cymunedol a darpariaeth iechyd a gofal statudol.

Mae'r Gymuned Ymarfer hon wedi cyfarfod 4 gwaith ers Mawrth 2022:

- Fel y Cymunedau Ymarfer eraill, mae cydweithwyr o bob cwr o Gymru wedi rhannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o heriau lleol mewn fformat dysgu gweithredol i

ddatrys problemau a bydd yr elfen hon yn parhau drwy gydol yr Hydref.

- Mae'r Gymuned Ymarfer wedi meithrin cysylltiadau cryf â chydweithwyr yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru a AaGIC, ac maent wedi cytuno i gynnig cefnogaeth 'bwrdd seinio' i'w gwaith yn y maes hwn, yn ogystal â rhannu enghreifftiau o arfer da ac arferion newydd.
- Mae'r Gymuned Ymarfer wedi nodi blaenoriaeth uniongyrchol am ei gyfraniad i syniadau cenedlaethol am fodelau gofal integredig fel trefniadau ar gyfer pwyntiau mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'n gweithio ar bapur trafod sy'n cynnig egwyddorion a ddylai lywio dyluniad a datblygiad pwyntiau mynediad unigol yn yr Hydref.

Mae'r Gymuned Ymarfer iechyd emosiynol a meddyliol bellach wedi hen ennill ei blwyf a'r bwriad yw cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob chwe wythnos o'r Hydref ymlaen. Rydym yn awyddus i groesawu mwy o gydweithwyr ag arbenigedd a chyfrifoldeb yn y maes hwn (sy'n cwmpasu pob oedran a chyflwr) o bob cwr o Gymru.

Y Gymuned Ymarfer Gartref o'r Ysbyty

Mae'r Gymuned Ymarfer hon wedi'i sefydlu ers cryn amser a lluniodd ganllawiau cenedlaethol 'Rhyddhau i Adfer ac Asesu' yn 2021. Mae'n bwrw ymlaen â gweithredu a datblygu ymhellach y gwaith hwn ar fodelau o arfer da wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol rhwng yr ysbyty a'r cartref, a chefnogi rhaglenni cenedlaethol sy'n ymwneud â Gartref o'r Ysbyty a'r Chwe Nod Gofal Brys ac Argyfwng a Rhaglen Gofal Heb ei drefnu Uned Gyflawni'r GIG. Mae'r Gymuned Ymarfer wedi cyfarfod 4 gwaith ers Mawrth 2022:

- Mae cydweithwyr o bob cwr o Gymru wedi rhannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o heriau lleol mewn fformat dysgu gweithredol sy'n datrys problemau a bydd yr elfen hon yn parhau drwy gydol yr Hydref.
- Mae'r Gymuned Ymarfer yn gweithio'n agos gyda'r rhaglen '6 Nod' sy'n cynnig adborth ar adnoddau newydd a datblygiadau arfaethedig, a chefnogaeth wrth ddosbarthu ac ymgorffori arferion da.
- Mae cydweithwyr yn y Gymuned Ymarfer wedi cytuno mai un her bwysig sy'n wynebu arferion Adre o'r Ysbyty ledled Cymru yw sut i sicrhau bod y dull 'Beth sy'n bwysig', sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth ac yn ymrwymiad allweddol yn y cynllun 'Cymru Iachach', yn cael ei ddefnyddio'n llwyr yn ymarferol. Maent wedi cytuno i ddatblygu adnoddau i helpu partneriaid lleol a rhanbarthol i ddatblygu dulliau mwy cadarn o ymdrin â sgyrsiau 'Beth sy'n bwysig' fel elfennau craidd y broses Rhyddhau i Adfer ac Asesu / Adre o'r Ysbyty, ac i edrych ar rai o'r heriau gweithredu y mae llawer o bartneriaid yn eu hwynebu ledled Cymru.

Mae'r Gymuned Ymarfer yn parhau i ffynnu, a'r bwriad yw cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob chwe wythnos o'r Hydref ymlaen. Rydym yn awyddus i groesawu rhagor o gydweithwyr ag arbenigedd a chyfrifoldeb mewn darparu Adre o'r Ysbyty o bob rhan o Gymru.

Cymunedau Ymarfer pellach

Bydd cam nesaf y rhaglen yn cynnwys ehangu nifer y Cymunedau Ymarfer.

Mae dau arall - yn cyd-fynd â themâu y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol uchod - yn cael eu cwmpasu ar hyn o bryd a bydd cyfarfodydd cychwynnol yn digwydd unwaith y bydd y cwmpas yn cael ei gytuno a'r corff noddi yn cael ei gadarnhau. Rydym yn awyddus i groesawu cydweithwyr ag arbenigedd a chyfrifoldeb yn y ddau faes hyn – cysylltwch â ni i gofrestru eich diddordeb – a byddwn yn ysgrifennu at bartneriaid rhanbarthol, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, a'r trydydd sector a'r sector preifat maes o law i ofyn am enwebiadau.

Cymryd rhan

Os hoffech gael eich ychwanegu at un o restrau dosbarthu y Gymuned Ymarfer ar gyfer deunyddiau a gwahoddiadau cyfarfod, e-bostiwch un o'r canlynol:

rachel.cohen@llyw.cymru

kmoultrie@brookes.ac.uk

Byddwn yn ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu ac yn anfon cyfarwyddiadau ymuno atoch.